

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 24 Mawrth 2016 am 2.00 pm.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Bill Cowie, Stuart Davies, Hugh Irving, Arwel Roberts, Cefyn Williams (Cadeirydd) a Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd (IM), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (HB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

TEYRNGED – Y CYNGHORYDD RICHARD DAVIES

Rhoddodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd Richard Davies a fu farw ar 22 Mawrth. Safodd yr aelodau a'r swyddogion mewn teyrnged dawel.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Barry Mellor, Win Mullen-James a Pete Prendergast

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion bryd.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

4 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/0427/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddisbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) addaswyd Gyrrwr Rhif 15/0427/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn honiadau o ymddygiad amhriodol wrth ymgymryd â chontract cludiant ysgol;

- (ii) manylion ac amgylchiadau yn gysylltiedig â'r drosedd wedi'u rhoi (roedd crynodeb o ffeithiau ynghyd â datganiadau tyst cysylltiedig a dogfennaeth ynghlwm wrth yr adroddiad);
- (iii) y Gyrrwr wedi cyflwyno tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded a oedd wedi'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad, a
- (iv) bod y Gyrrwr wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod tra adolygir ei drwydded er mwyn gallu ateb cwestiynau'r aelodau ynglŷn â hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod yng nghwmni ei Gynrychiolydd Undeb a chyd-dyst. Cadarnhaodd y Cynrychiolydd Undeb dderbyn yr adroddiad a'r gweithdrefnau pwyllgor.

Amlinellodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu yr achos fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Cyflwynodd y Cynrychiolydd Undeb achos y Gyrrwr. Dywedodd nad oedd y datganiadau tystion wedi'u teipio a gyflwynwyd gan y Swyddog Ymchwilio wedi cael eu llofnodi a gofynnodd am iddynt gael eu diystyru. Cyflwynodd hefyd nad oedd yr ymchwiliad wedi cael ei gynnal mewn modd teg ac agored gan amlygu lle roedd yn ystyried bod yna feysydd o ragfarn o fewn yr achos. Dadleuwyd nad oedd llwybrau ymholiadau penodol a allai fod wedi bod o blaid y Gyrrwr wedi cael eu dilyn a chwestiynwyd hefyd hygredded tystiolaeth benodol. Cyflwynwyd hefyd sylwadau ynglŷn â safon y dystiolaeth sy'n ofynnol mewn achosion o'r fath o ystyried bod yr hawl i apelio trwy'r Llys Ynadon. O ran yr honiadau a nodwyd yn yr adroddiad, eglurodd y Cynrychiolydd Undeb yr honiadau hynny a gyfaddefwyd gan y Gyrrwr a'u rhoi mewn cyd-destun, gan roi fersiwn y Gyrrwr o'r digwyddiadau. Cafodd y pwyllgor hefyd wybod am yr honiadau a wadwyd gan y Gyrrwr. Amlygwyd nad oedd unrhyw gwynion wedi'u gwneud yn erbyn y Gyrrwr gan ddefnyddwyr gwasanaeth eraill neu'r cyhoedd. O ystyried y dystiolaeth wrthgyferbyniol a gyflwynwyd a'r gefnogaeth a fynegwyd yn y geirdaon (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gofynnodd y Cynrychiolydd Undeb i'r Gyrrwr gael cadw ei drwydded a pharhau fel gyrrwr trwyddedig.

Ar y pwynt hwn trafodwyd y mater o ddatganiadau tystion heb eu harwyddo, a dosbarthwyd copïau o'r datganiadau tyst gwreiddiol wedi'u llofnodi. Dadleuodd y Cynrychiolydd Undeb nad oedd wedi cael y cyfle i edrych ar y dogfennau a gofynnodd am iddynt gael eu diystyru er budd gwrandawriad teg. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd safbwynt cyfreithiol ar y sefyllfa a thegwch y trafodion. Cadarnhaodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu bod y datganiadau wedi cael eu teipio i sicrhau eu bod yn ddarllenadwy a'u bod wedi cael ei gwirio am gywirdeb. Torrodd y pwyllgor i ystyried y dadleuon cyfreithiol. Ar ôl ailddechrau'r trafodion dywedwyd wrth bawb am benderfyniad y pwyllgor i dderbyn y datganiadau fel tystiolaeth a pharhau â'r achos. Nid oedd y pwyllgor yn ystyried bod annhegwch sylweddol ar y sail y rhoddwyd sicrwydd gan y Swyddog Gorfodi Trwyddedu, a oedd â dyletswydd o onestrwydd i'r pwyllgor, bod y fersiynau a deiپیwyd wedi'u trawsgrifio'n gywir a bod yr wybodaeth a gynhwyswyd

yn y datganiadau wedi bod ar gael ymlaen llaw a gallent fod wedi eu hegluro yn gynharach yn y broses. Wrth wneud eu penderfyniad roedd y pwyllgor hefyd wedi ystyried cyngor gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ynglŷn â safon y dystiolaeth ofynnol. Eglurwyd bod penderfyniad y pwyllgor ynghylch a oedd y Gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal trwydded yn seiliedig ar yr hyn sy'n debygol. Nid oedd y pwynt bod y llwybr apêl i'r Llys Ynadon yn newid y ffaith honno o ystyried nad oeddent yn eistedd ar sail droseddol wrth ystyried apeliadau o'r fath ac felly nid oedd baich y dystiolaeth tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Gallai cyfweiliadau a gynhaliwyd o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol eu defnyddio mewn achosion sy'n cynnwys tebygolrwydd a safonau tystiolaeth troseddol.

Cymerodd yr Aelodau'r cyfle i holi'r Gyrrwr a'i dystion ynglŷn â ffeithiau'r achos er mwyn canfod a oeddent yn ystyried y Gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Eglurodd y tyst ei berthynas â'r Gyrrwr a maint ei ran yn yr achos a'r dystiolaeth y gallai ategu. Ymatebodd y Gyrrwr i gwestiynau ynghylch yr honiadau a wnaed ac ymhelaethodd ar amgylchiadau'r digwyddiadau ac anghysondebau penodol rhwng ei fersiwn o ddiwyddiadau a datganiadau tystion.

Cymerodd y Cynrychiolydd Undeb y cyfle i wneud datganiad terfynol. Cyfeiriodd at y modd yr oedd y Gyrrwr wedi ymateb i sefyllfaoedd arbennig heb y fantais o hyfforddiant ffurfiol priodol fel y gofynnwyd yn flaenorol gan y pwyllgor. Nid oedd unrhyw wadu bod camgymeriadau wedi eu gwneud neu na ellid dysgu gwersi o'r broses. Fodd bynnag, gan gymryd i ystyriaeth yr esboniad o'r digwyddiadau a gwadu honiadau penodol, ac o ystyried y pryderon a godwyd ynghylch y broses ymchwilio, gofynnodd i'r Gyrrwr gael cadw ei drwydded a chael cymorth priodol er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau yn yr achos hwn.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

PENDERFYNWYD diddymu trwydded yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gyrrwr rhif 15/0427/TXJDR.

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried yn ofalus cynnwys yr adroddiad a'r sylwadau a gyflwynwyd gan y Gyrrwr yn yr achos hwn a'i ymateb i gwestiynau. Canfu'r pwyllgor, yn ôl yr hyn sy'n debygol, fod y Gyrrwr wedi ymddwyn mewn ffordd amhriodol gan resymau ei weithredoedd, y rhai yr oedd wedi eu cyfaddef a'r rhai yr oedd y pwyllgor wedi dod o hyd iddynt. Roedd y camau gweithredu hynny wedi achosi i'r pwyllgor ystyried nad oedd y gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal trwydded yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Roedd y pwyllgor yn arbennig o bryderus am ymddygiad amhriodol a sylwadau tuag merch 16 mlwydd oed. O gofio mai eu hystyriaeth bwysicaf oedd gwarchod y cyhoedd, roedd yr aelodau o blaid diddymu'r drwydded ar unwaith am resymau diogelwch y cyhoedd.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr a'i Gynrychiolydd Undeb. Gan nad oeddent wedi cael cyfle blaenorol i ymateb i'r sail am diddymu am resymau diogelwch y cyhoedd, gwahoddiwyd y Gyrrwr a'i Gynrychiolydd Undeb i roi sylwadau yn hynny o beth.

Dadleuodd y Cynrychiolydd Undeb nad oedd y dystiolaeth wedi cael ei phrofi'n briodol yn yr achos hwn ac ailadroddodd bryderon ynghylch y broses ymchwilio. Tynnodd sylw'r aelodau at y geirdaon ysgrifenedig yn ardystio cymeriad da'r Gyrrwr a dywedodd nad oedd cyfiawnhad am ddiddymu'r drwydded ar unwaith yn yr achos hwn.

Torrodd y pwyllgor i ystyried sail y diddymiad a -

PENDERFYNWYD diddymu trwydded yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gyrrwr rhif 15/0427/TXJDR ar sail diogelwch y cyhoedd ar unwaith.

Ar ôl ystyried y sylwadau a gyflwynwyd ar ran y Gyrrwr o ran y sail ar gyfer diddymu, roedd yr aelodau'n parhau i fod o'r farn, o ystyried eu pryderon ynghylch ei ymddygiad, y dylid diddymu'r drwydded ar unwaith ar sail diogelwch y cyhoedd. Mynegodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraidaidd benderfyniad y pwyllgor i'r Gyrrwr a'i Gynrychiolydd Undeb ac eglurodd oblygiadau'r penderfyniad hwnnw. Cyngorwyd y Gyrrwr a'i Gynrychiolydd Undeb hefyd y byddent yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ynghyd â'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys yr Ynadon o fewn un diwrnod ar hugain.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50pm.